Dŵr Cymru
Welsh Water

Datganiad Polisi Cymhwysedd Technegol

Mae Dŵr Cymru'n cydnabod bod amddiffyn ein hamgylchedd ac iechyd pobl yn rhan annatod o'n busnes, ac mae'r cwmni wedi ymrwymo i leihau'r risg o lygredd ar dir, yn yr aer ac mewn dŵr trwy sicrhau ein bod ni'n gweithredu o fewn y safonau perfformiad a bennwyd gan ein Rheoleiddwyr, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Rydyn ni'n cydnabod ei bod hi'n hanfodol bod gan ein cydweithwyr sy'n gweithredu ein Cyfleusterau Treulio Anaerobig Uwch a'n Canolfannau Trin Slwtsh y wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd technegol i fodloni gofynion y rheoliadau a chydymffurfio â'r drwydded amgylcheddol.

Byddwn ni'n cyflawni hyn trwy:

- Sicrhau bod yr uwch reolwyr yn dangos arweinyddiaeth ac ymroddiad trwy ysgwyddo atebolrwydd dros effeithiolrwydd y system rheoli ansawdd, gan sicrhau ei bod yn cael ei hintegreiddio i gyfeiriad a phrosesau strategol Dŵr Cymru Welsh Water, a hynny gan ddefnyddio dull o fynd ati sy'n seiliedig ar risgiau.
- Darparu fframwaith ar gyfer pennu ac adolygu amcanion a thargedau sy'n gysylltiedig â chymhwysedd.
- Gwella effeithiolrwydd ein System Rheoli Cymhwysedd yn barhaus, a datblygu ein cydymffurfiaeth â'r trwyddedau trwy gyflawni adolygiadau rheolaidd o berfformiad a gwerthuso adborth gan ein Rheoleiddwyr a'n cwsmeriaid.
- Cysylltu, cyfarwyddo a chefnogi pob gweithiwr i fod â dealltwriaeth dda am bwysigrwydd y System Rheoli Cymhwysedd, eu cyfrifoldeb wrth gyfrannu at ei effeithiolrwydd a'i berthnasedd uniongyrchol i gydymffurfiaeth â'r trwyddedau.
- Darparu disgrifiad swydd cynhwysfawr ar gyfer pob cydweithiwr sy'n diffinio'u rôl, eu cyfrifoldebau, eu llinellau adrodd a'r lefelau o gymhwysedd sydd eu hangen er mwyn cydymffurfio â'r trwyddedau amgylcheddol.
- Ategu rôl pob swydd â fframwaith diffiniedig o wybodaeth a sgiliau sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â'r newidiadau Rheoliadol.
- Darparu'r gyllideb a'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni rhaglenni cynlluniedig o hyfforddiant a datblygiad ar gyfer ein cydweithwyr.
- Cyflawni adolygiadau rheolaidd o berfformiad ein cydweithwyr er mwyn pwyso a mesur y lefelau ogymhwysedd sy'n bodoli.
- Gweithredu a gwella System Rheoli Cymhwysedd sydd wedi ei hardystio i safonau cydnabyddedig o gymhwysedd yn barhaus.
- Cyfleu cynnwys y Polisi Rheoli Cymhwysedd i gydweithwyr yn Dŵr Cymru ac i unrhyw un arall sydd â buddiant yn ein gwaith.

Ategir y System Rheoli Cymhwysedd gan System Rheoli Integredig Dŵr Cymru sydd wedi ei ardystio o dan ISO 9001 ac ISO 14001.

Caiff y Polisi hwn ei adolygu'n flynyddol a/neu pan clustnodir newidiadau arwyddocaol.

Steve Wilson
Rheolwr Gyfarwyddwr Dŵr Gwastraff Cwsmeriaid Busnes ac Ynni
Dŵr Cymru
Ebrill 2022